



Cofnodion a gymeradwywyd cyfarfod Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr a gynhaliwyd ar 25 Mai 2021 drwy gyfrwng Timau

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

Mr R Davies (RD) - Cadeirydd Rheolwr Grŵp - Cymorth Busnes
Mrs D Davies (DD) Prif Swyddog, Strategaeth Busnes a Pherfformiad

Cynrychiolwyr Ysgolion

Mr J Tarran (JT) - Is-gadeirydd Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis
yr Eglwys yng Nghymru
Mrs S Jayne (SJ) Pennaeth, Ysgol Gymraeg Bro Ogwr
Mrs K John (KJ) Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla
Mr J Evans (JE) Pennaeth, Ysgol Heronsbridge
Mrs H Castle Pennaeth, Ysgol Gyfun Cynffig
(Yn bresennol yn lle Mr A Slade)

Cynrychiolydd Rhieni-lywodraethwyr

Mr W Bond (WB) Ysgol Gynradd Croesty

Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod

Ms C Christy (CC) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr A Slade, Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl a'r Cynghorydd Dr C Smith.

Diolchodd RD i'r aelodau oedd yno am eu presenoldeb yn y cyfarfod rhithiol.

2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2020 a materion oedd yn codi

Cafodd cofnodion y cyfarfod eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

Nid oedd materion yn codi.

3. Aelodaeth y fforwm

Cafodd y gofynion ynghylch aelodaeth o fforymau derbyn eu hadolygu a chytunwyd y byddai'r awdurdod lleol yn cymryd camau wedi eu hanelu at ymestyn aelodaeth y fforwm am 2021-2022.

4. Diweddariad ar Bolisi Derbyn i Ysgol yr Awdurdod Lleol 2022-2023

Atgoffodd DD yr aelodau fod y fforwm wedi cytuno ar ddrafft ymgynghori'r Polisi Derbyn i'r Ysgol ar gyfer 2022-2023 yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020. Y cyfnod ymgynghori ar gyfer y polisi drafft oedd 19 Ionawr 2021 hyd 19 Chwefror 2021.

Dywedodd DD wrth yr aelodau am y sylwadau oedd wedi dod i law, fel rhan o'r ymgynghoriad, oddi wrth un o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg, a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny. Lle roedd yn briodol, gwnaed newidiadau i'r polisi drafft i'w cymeradwyo gan y Cabinet, sef:

- Cafodd yr adran o'r polisi yn ymwneud â dalgylchoedd ei ymestyn gyda datganiad penodol nad oes dalgylchoedd ar gyfer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mynegwyd yr un eglurhad ynghylch ysgolion ffydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Diwygiwyd adran 6 y polisi a'i ymestyn i egluro'r sefyllfa gyda golwg ar gymhwyster ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sir.
- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (MGC 2011) yn gwneud darpariaeth ar gyfer datblygu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg, y bwriedir iddynt ddisodli'n raddol y system bresennol o gynlluniau iaith Gymraeg y darparwyd ar eu cyfer gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (DIG 1993), ond mae Rhan II o DIG 1993 yn parhau mewn grym. Yn unol â hynny, cyfeiriwyd at MGC 2011 yn ogystal â DIG 1993 yn adran 11 o'r polisi.
- Diwygiwyd pob adran yn y polisi sy'n ymwneud â meini prawf gordanysgrifio er mwyn ei gwneud yn glir mai dim ond mewn perthynas â cheisiadau am ysgolion cyfrwng Saesneg, heb fod yn ysgolion ffydd y mae dalgylchoedd yn gymwys a bod agoswydd at yr ysgol yn berthnasol i geisiadau am ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd. (Cyfeiriwyd yn y polisi at y ffaith mai ar gyfer un ysgol ffydd yn unig y mae'r awdurdod lleol yn awdurdod derbyn, sef Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen y Fai).

Cymeradwyodd y Cabinet y polisi ar 9 Mawrth 2021, gan gydymffurfio â'r gofyniad yn y cod statudol i bennu'r polisi/trefniadau erbyn 15 Ebrill 2021.

5. Data cychwynnol ar gyfer y rowndiau derbyn ar gyfer Medi 2021

Bu'r aelodau'n ystyried y data gan nodi'r pwyntiau penodol a ganlyn:

- Y cynnydd yng nghanran y ceisiadau a gyflwynwyd ar-lein.
- Y gostyngiad yng nghanran y ceisiadau yr oedd ysgol y dalgylch yn ddewis cyntaf ganddynt (ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion heb fod yn rhai ffydd yn unig).
- Y gostyngiad yng nghanran y ceisiadau lle nad oedd ysgol ail ddewis wedi'i chofnodi.
- Dyrannwyd lle yn yr ysgol a enwyd i bob plentyn â datganiad oedd yn enwi lleoliad diffiniedig ar gyfer Blwyddyn 7 ym Medi 21, yn unol â'r polisi.
- Dyrannwyd lle i bob plentyn oedd yn derbyn gofal ac oedd yn arfer derbyn gofal yn yr ysgolion dewis cyntaf, yn unol â'r polisi. Roedd gwiriadau dilysu'r ceisiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd wedi cymryd llawer o amser gan mai ychydig o geisiadau a gyflwynwyd gan y rhiant corfforaethol, fel sy'n ofynnol yn ôl y polisi.
- Ychydig iawn o rieni/gofalwyr, oedd yn mynegi dewis ysgol ar sail eu cyfeiriad yn y dyfodol, a gydymffurfiodd â'r gofynion tystiolaeth ar gyfer eu cyfeiriad yn y dyfodol. Roedd hyn er gwaethaf y canllawiau yn y ffurflen gais. Felly, aseswyd y ceisiadau ar sail y cyfeiriad presennol, yn unol â'r polisi.
- Ychydig iawn o rieni/gofalwyr, oedd yn mynegi dewis ysgol am resymau meddygol / seicolegol / cymdeithasol, a gydymffurfiodd â'r gofynion tystiolaeth, er gwaethaf y canllawiau yn y ffurflen gais.
- Unwaith eto, roedd gordanysgrifio lleoedd BI7 yn Ysgol Gyfun Bryntirion, gyda'r canlyniad bod 18 oedd wedi ei gosod fel eu dewis cyntaf wedi cael eu gwrthod – cynnydd ar y 12 a wrthodwyd ar gyfer Medi 2020. Bodlonwyd pob ail ddewis a fynegwyd ar y diwrnod cynnig.
- Roedd gordanysgrifio lleoedd derbyn yn Ysgol Gynradd West Park yng ngorllewin y sir. Roedd yn nodedig bod dros 60% o'r ceisiadau ar gyfer yr ysgol yn ymwneud â phlant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Bodlonwyd pob ail ddewis a fynegwyd. 55 oedd nifer y plant a dderbyniwyd yn erbyn y nifer derbyn cyhoeddedig o 54, oherwydd cymhwyso maen prawf genedigaethau lluosog.
- Yn y gogledd ddwyrain, roedd lleoedd derbyn wedi eu gordanysgrifio yn Ysgol Gynradd Coety, Ysgol Gynradd Llangrallo, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen y Fai ac Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Roedd llawer o'r rhieni/gofalwyr a oedd wedi mynegi dewis cyntaf ar gyfer un o'r ysgolion hyn wedi cofnodi ysgol arall yn y grŵp hwn fel ail ddewis. Roedd y broses ddyrannu, felly, yn heriol. Roedd yn ymddangos bod rhai rhieni/gofalwyr, nad oedd modd bodloni eu dewis cyntaf am ysgol gyfrwng Cymraeg neu ysgol ffydd, wedi dewis ysgolion ail ddewis ar sail lleoliad yn unig.

- Roedd lleoedd meithrin amser llawn wedi eu gordanysgrifio yn Ysgol Gynradd Afon y Felin ac Ysgol Gynradd West Park yn y gorllewin, ond cafodd pob ail ddewis a fynegwyd ei fodloni.

Yn y gogledd ddwyrain, roedd lleoedd wedi eu gordanysgrifio yn Ysgol Gynradd Coety, Ysgol Gynradd Llangrallo, Ysgol Gynradd Litchard ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen y Fai. Roedd llawer o'r rhieni/gofalwyr, oedd wedi enwi un o'r ysgolion hyn fel eu dewis cyntaf, wedi cofnodi ysgol arall yn y grŵp hwn fel ail ddewis. Roedd y broses ddyrannu, felly, yn heriol. Ar gyfer deg cais, bu'n rhaid i'r awdurdod lleol wrthod yr ysgol dewis cyntaf a'r ail ddewis ar y diwrnod cynnig.

Roedd lleoedd yn Ysgol Gynradd Cwmfelin yn y gogledd wedi eu gordanysgrifio. Roedd bron i 70% o'r ceisiadau yn ymwneud â phlant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Cafodd pob ail ddewis a fynegwyd ei fodloni ar y diwrnod cynnig.

- Roedd angen gwiriadau dilysu ar nifer sylweddol o geisiadau a gyflwynwyd am resymau'n ymwneud â dyblygu, anghydfod rhwng rhieni, gwybodaeth anghyson, gwybodaeth wallus, a methiant i ddarparu'r dystiolaeth ofynnol. Roedd pob cais ar gyfer ysgolion lle bu gordanysgrifio lle cofnodwyd y byddai brawd neu chwaer ym Mlwyddyn 6 yn y ddewis ysgol(ion) yn 2021-2022 wedi cael ei wirio â llaw ar ôl nodi llawer o achosion lle roedd y brawd neu chwaer yn y Flwyddyn 6 gyfredol ond y byddai wedi gadael yr ysgol erbyn Medi 2021. Roedd y gwiriadau wedi bod yn arbennig o heriol o ystyried bod llai o swyddogion ar gael, ond yn hanfodol o ystyried y meini prawf gordanysgrifio ar gyfer brodyr a chwirydd.

6. Unrhyw Fater Arall

Hysbysodd RD yr aelodau am fuddsoddiad sylweddol yr awdurdod lleol i gaffael system Capita One, a'r buddion disgwylidig pan fyddai'n cael ei gweithredu.

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Ni chytunwyd ar ddyddiad penodol ond ffefrid cyfarfod yn gynnar yn Nhymor yr Hydref 2021 yng ngoleuni'r trafodaethau blaenorol ynghylch aelodaeth.

Diolchodd RD i bawb oedd yn bresennol am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.